Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Tipio anghyfreithlon a gofnodwyd gan awdurdodau lleol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024

Crynodeb o achosion o dipio anghyfreithlon, camau gorfodi a chanlyniadau erlyn ar gyfer Ebrill 2023 i Mawrth 2024. Nid yw'r ystadegau yn cynnwys achosion o dipio ar dir preifat.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Tachwedd 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Tachwedd 2024

# Cynnwys

**Prif bwyntiau** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#159404)

**Troednodiadau** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#159406)

**Gwybodaeth gefndir** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#159408)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#159410)

# Prif bwyntiau

- Cafodd 42,171 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon eu cofnodi yng Nghymru. Mae hyn 6% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac 20% yn fwy na 2018-19.
- Roedd newid blynyddol yn nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn amrywio ledled Cymru. Adroddodd 10 awdurdod lleol ostyngiad a nododd 12 awdurdod lleol gynnydd.
- Gwelwyd y cynnydd blynyddol mwyaf yng Ngwynedd (95%), Ynys Môn (55%) a Sir Ddinbych (46%). Yn ôl yr awdurdodau lleol, roedd hyn yn rhannol oherwydd gwell mecanweithiau adrodd.
- Gwelwyd y gostyngiadau blynyddol mwyaf mewn digwyddiadau tipio anghyfreithlon yng Ngheredigion (65%), Bro Morgannwg (52%), Castell-nedd Port Talbot a Phowys (26% ill dau).
- Roedd 71% o'r digwyddiadau'n ymwneud â gwastraff cartref (bag du neu wastraff cartref arall).
- Amcangyfrifwyd bod clirio tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn costio £1.94 miliwn. [**troednodyn 1** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#troednodyn-1)]
- Cafodd 25,454 o gamau gorfodi eu cymryd yng Nghymru. Mae hyn 7% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. [**troednodyn 2** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#troednodyn-2)]
- O'r 102 canlyniad i erlyniad, fe wnaeth 69% arwain at ddirwy.

Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd:

- gwelliannau mewn prosesau cofnodi data a chanllawiau
- effaith y pandemig coronafirws (COVID-19). Nid yw'n glir pa effeithiau sy'n rhai tymor byr a pha rai allai barhau dros y tymor hir, sy'n gwneud cymariaethau rhwng blynyddoedd yn anodd

Ceir gwybodaeth bellach yn yr **adroddiad ansawdd** (/tipio-anghyfreithion-gofnodwyd-gan-awdurdodau-lleol-adroddiad-ansawdd).

# Troednodiadau

[**1** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#1)] Amcangyfrifir bod costau clirio yn seiliedig ar nifer y digwyddiadau a dorrwyd i lawr yn ôl maint. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar gyfer pob digwyddiad. Yn 2023-24, darparwyd gwybodaeth am faint ar gyfer 93% o ddigwyddiadau.

[**2** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/65079#2)] Oherwydd COVID-19 gohiriwyd llawer o achosion cyfreithiol, gan arwain at gynnydd mawr mewn camau gorfodi a adroddwyd yn 2021-22. Felly mae disgwyl gostyngiad mewn camau gorfodi yn 2022-23 a 2023-24.

# Gwybodaeth gefndir

Mae'r ystadegau yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol i'r gronfa ddata 'Waste Data Flow'. Er y cofnodir rhai achosion, nid yw'r ystadegau yma yn cynnwys pob achos o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, ac ni chofnodir pob digwydd tipio anghyfreithlon gydag awdurdod lleol.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Stuart Neil
E-bost: **ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru**
(mailto:ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.